Plaid Cymru | Party of Wales



PAPUR TRAFOD GAN
ADAM PRICE AC
A SIAN GWENLLIAN AC

DYFODOL Y GORLLEWIN

CYDWEITHIO ER LLES YR ECONOMI A'R GYMRAEG

Yn sgil etholiadau lleol 2017 mae Plaid Cymru mewn grym ym Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr. Dyma gyfle gwirioneddol i'n cynghorau sir Gorllewinol weithio gyda'i gilydd wrth i'r rhanbarth wynebu heriau anferth yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn y Gorllewin mae rhai o ardaloedd tlotaf Cymru ; mae'n pobol ifanc yn gadael ac mae'r iaith Gymraeg yn edwino yn ei sgil economi wan. Mae hi yn sefyllfa o argyfwng ond drwy gydweithio rhanbarthol gallwn sicrhau fod anghenion yr ardal yn cael sylw a buddsoddiad er mwyn tyfu a chryfhau.

Mae'r papur trafod yma yn cynnwys papur gan yr Aelod Cynulliad Adam Price ar Arfor.

Cyflwynwyd gweledigaeth Adam a'r cysyniad o Arfor am y tro cyntaf yn 2013; fe'i cynhwysid yn maniffesto'r Blaid ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad yn 2016; derbyniwyd y syniad o gyd-weithio rhwng cynghorau'r Gorllewin gan y llywodraeth Lafur yn haf 2016 ac eleni mae Plaid Cymru wedi sicrhau £2miliwn o arian Llywodraeth er mwyn dechrau ffurfioli'r cydweithio Gorllewinol.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Môn, cynhaliwyd seminar gan Blaid Cymru i drafod y mater ymhellach ac yma fe gyhoeddwn y tri papur oedd yn sail i'r drafodaeth honno: phapur trafod Adam ar Arfor; ymateb y cyn Aelod Seneddol Cynog Dafis, Cadeirydd Dyfodol i'r Iaith; a papur gan Yr Athro Gareth Wyn Jones, Bangor, sydd yn trafod y syniad o 'Ardal y Fenai' fel un o'r parthau twf posib sydd yn ganolog i'r weledigaeth ar gyfer y Gorllewin.

Gobeithio y bydd rhain yn ysgogi trafodaeth bellach ac mae Adam a minnau yn edrych mlaen at glywed eich ymateb a'ch cyfraniadau i'r drafodaeth.

Sian Gwenllian, Llefarydd y Blaid ar y Gymraeg a Llywodraeth Leol

ARFOR - gan Adam Price AC

Mae Cymru ar drothwy cyfnod newydd o lywodraethu rhanbarthol. Er bod na sawl tro pedol wedi bod ers Adroddiad Comisiwn Williams a pholisi o gyfuno gorfodol Leighton Andrews, ym 2018 mi fydd Llywodraeth Cymru yn deddfu cyn hir i greu map o ranbarthau newydd.

Mi fydd y map yma yn siapio strategaethau datblygu economaidd am flynyddoedd i ddod, ac yn dylanwadu ar bethau ehangach fel trafnidiaeth a gwasanaethau cyhoeddus.

Ar hyn o bryd yr awgrym yw y bydd y map newydd yn dilyn yn fras y patrwm sydd wedi ei osod gan y ddau Ddinas-Ranbarth yn y De, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru – ond yn cyfuno Dinas Rhanbarth Abertawe a'r Canolbarth i greu un rhanbarth i'r Gorllewin a'r Canolbarth. Yn benodol argymhelliad y Llywodraeth fydd creu tri Cyd-Bwyllgor Llywodraethu (o dan Deddf Llywodraeth 1972) fydd yn gyfrifol am ddatblygu economaidd, sgiliau, trafnidiaeth, ac o bosib swyddogaethau ehangach fel cynllunio tir a chynllunio strategol, tai, gweinyddu a gwasanaethau cyhoeddus yn fwy eang.

Canlyniad hyn fuasai bod y pedwar sir lle mae'r Gymraeg yn gryf – Sir Caerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn – i gyd yn cael eu cynnwys mewn rhanbarthau sydd yn fwyafrifol Saesneg eu hiaith. Mi fydd yr ardaloedd mwyafrifol wledig i gyd yn cael eu cynnwys mewn rhanbarthau sydd yn fwyafrifol drefol. Y perygl ydy bod anghenion penodol y Gorllewin Cymraeg, ac yn arbennig y cyd-gysylltiad agos rhwng ffyniant economaidd a hyfywedd ieithyddol-ddiwylliannol yn cael eu hesgeuluso gan strategaethau rhanbarthol lle mae'r ystyriaethau hyn yn llythrennol ymylol.

Mi ddylai hyn beri pryder oherwydd bod sefyllfa economaidd, ieithyddol a gwleidyddol y Gorllewin wedi cyrraedd pwynt o greisis.

1. Mae yna batrwm clir o ddirywiad economaidd a dirywiad ieithyddol yn ardaloedd y Gorllewin,
2. Mae'r cysylltiad rhwng y ddau ffenomenon i'w weld yn glir yn lefelau all-boblogi pobl ifanc,
3. Mae yna hefyd dystiolaeth o ddiffyg buddsoddiad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn ardaloedd y De-Orllewin a'r Gogledd-Orllewin,
4. Mae yna gydnabyddiaeth hyd yn oed gan Aelodau Llafur nad oes ffocws ar anghenion unigryw Cymru Wledig yn strategaeth economaidd y Llywodraeth ar hyn o bryd,

Mae yna duedd i or-bwysleisio y cysylltiadau Gorllewin-Dwyreiniol a thraws-ffiniol gyda Lloegr yn ein strategaeth economaidd cenedlaethol gan israddio cysylltiadau De a Gogledd.

Ar yr un pryd mae Papur Gwyn y Llywodraeth yn datgan: "Bydd sicrhau bod y Gymraeg yn

rhan elfennol o'r agenda datblygu economaidd rhanbarthol yn bwysig i gadernid y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf."

Ond mae strategaeth yn dilyn strwythur. Felly rhaid i ni greu strwythur sydd yn asio datblygu economaidd a chynllunio iaith at ei gilydd, ac yn gwneud y Gorllewin yn ganolbwynt nid ar gyrion rhanbarthau mwy. Mae'n amser felly atgyfodi'r syniad o Arfor, a godwyd mewn papur amlinellol gan Adam Price rhai blynyddoedd yn ôl ac a fabwysiadwyd ar ffurf amodol ym maniffesto'r Blaid yn Etholiadau Cynulliad 2016.

Mae ardaloedd Arfor yn rhannu nifer o nodweddion cyffredin:

- Canran uchel o siaradwyr Cymraeg
- Mewnlifiad pobl hŷn , all-lifiad pobl ifainc
- Gwledig, dibyniaeth ar amaeth, bwyd a thwristiaeth
- Trefi marchnad a threfi prifysgol
- Canran uchel o swyddi yn y sector cyhoeddus
- Cyflogau isaf ym Mhrydain, ac ymhlith yr isaf yn Ewrop

Mae yna beth cefnogaeth swyddogol wedi bod i'r syniad o ranbarth economaidd i'r Gorllewin. Mi oedd "Adroddiad Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog" y Llywodraeth, a arweiniwyd gan Rhodri Glyn Thomas, yn argymell bod strategaeth ieithyddol-economaidd yn cael ei ddatblygu ar gyfer siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Caerfyrddin. Mae'r "Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg" a gyhoeddwyd law yn llaw gyda'r Papur Gwyn ar Ranbarthedd yn datgan: "Byddai hyblygrwydd o ran trefniadau gweithio'n rhanbarthol yn caniatáu ar gyfer dull o'r fath i gael eu hystyried."

Mae Strategaeth Iaith y Llywodraeth hefyd yn dweud: "Bydd darparu ffocws rhanbarthol yn helpu pob rhan o Gymru, gan gynnwys cymunedau Cymraeg, i elwa ar ffyniant a datblygu'n lleoedd deniadol y mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a buddsoddi ynddynt".

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei fod e yn agored i'r syniad o awdurdodau yn cydweithio ar draws rhanbarthau wrth ddatblygu strategaeth economaidd ieithyddol ar gyfer y Gorllewin. Mae yna £2 filiwn wedi ei glustnodi dros y cyfnod 2018/19 a 2019/20 ar gyfer adeiladu secretariat a chefnogi buddsoddi yn "rhanbarth economaidd Arfor".

Yn ymarferol dyma beth allwn ni fod yn sôn amdano dros gyfnod o amser:

- Creu Cyd-Bwyllgor ffurfiol yn cynnwys y 4 sir craidd er mwyn caniatáu cydweithio rhanbarthol
- Arfor i weithredu yn gyfochrog gyda'r strwythurau rhanbarthol eraill (Dinas-Rhanbarth Abertawe, Dinas Rhanbarth Caerdydd, Tyfu Canolbarth, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru)
- Gwahoddiad i siroedd cyfagos – Conwy, Penfro, Powys, Dinbych, Abertawe - ymuno neu ddanfon sylwebyddion
- Creu secretariat canolog, arbenigol ac effeithiol i gyd-lunio strategaeth a rhaglen waith ym meysydd economi, iaith, cysylltedd, tai a chynllunio.
- Cynnig Bargen Twf (Growth Deal) Gwledig i Lywodraeth y DU ag Arfor
- Dechrau paratoi ar gyfer cynigion ar y cyd i Gronfa Ffyniant Newydd Llywodraeth y DU
- Creu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y Gorllewin Cymraeg gan adnabod pegynau twf ac ymestyn egwyddor marchnadoedd tai lleol yn unig a arloeswyd (am y tro cyntaf yng Nghymru) yng Nghynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn
- Creu Strategaethau sector-benodol e.e. i amaeth-fwyd a thwristiaeth
- Os ydy Llywodraeth Cymru yn cyflwyno lefi twristiaeth ei bod hi yn cael ei datganoli i'r rhanbarth i ail-fudsoddi yn y sector twristiaeth, isadeiledd, diwylliant a'r economi lleol (Byddai lefi o £1 y noswaith yn generadu tua £30m y flwyddyn).
- Creu cynllun tracio a denu pobl ifanc nôl i'r Gorllewin (yn dilyn arbrawf llwyddiannus Llwybro yn y 90au)
- Adeiladu ar y Cynllun Mynediad i'r Ifanc i Amaethyddiaeth (Sicrhawyd £5m ar gyfer hyn gan Blaid Cymru yn ein Cytundeb Cyn-Gyllideb diweddaraf gyda'r Llywodraeth)
- Gweithredu cynllun peilot ym maes yr Economi Sylfaenol. Sicrhawyd £1.5 miliwn ar gyfer hyn yng Nghytundeb Cyn-Gyllideb Plaid Cymru eleni
- Creu Academi Twristiaeth gyda Gwesty gweithiol yn dysgu lletygarwch drwy gyfrwng y Gymraeg
- Creu Banc Cymunedol i'r Rhanbarth ar fodel Banc Cymunedol Hampshire yn Lloegr

- Creu Cynllun Iaith ar draws y Rhanbarth i'r sector cyhoeddus o fewn y Rhanbarth h.y. i droi'r Gymraeg yn iaith gweinyddu mewnol yn dilyn esiampl Gwynedd o fewn llywodraeth lleol
- Creu cynllun Uno De a Gogledd, drwy lobio a chyd-ariannu gyda Llywodraeth Cymru (drwy fondiau o bosib) er mwyn creu Y Llinell Rheilffordd Genedlaethol gan ail-agor llinellau Aber-Caerfyrddin, Pwllheli-Caernarfon a Bangor-Caernarfon er mwyn ail-gysylltu Cymru, De a Gogledd, am y tro cyntaf ers dros hanner can mlynedd. A throi hyn yn gysylltiad ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn goridor ffibr-optig ar gyfer cysylltedd gig-a-byte yn y trefi ar hyd y llinell. Pwyslais hefyd ar fuddsoddi yn yr A487, A470 a'r A40 i wella cysylltedd heolydd (cymharer llwyddiant yr hen Bwyllgor Sefydlog ar gyfer Blaenau'r Cymoedd gan lobio ar gyfer yr heol deuol sydd yn arddel yr un enw).
- Datganoli sylweddol o bwerau o'r Cynulliad – fel yn achos datganoli i Faeri etholedig Lloegr
- Ystyriaeth tymor canol o fodelau llywodraethiant gwahanol: awdurdod cyfun, arweinydd etholedig, cynulliad rhanbarthol fel posibilrwydd i'w drafod i'r dyfodol
- Creu asiantaeth neu gorfforaeth ddatblygu rhanbarthol i fod yn gyfrifol am waith datblygu pegynau twf i'r rhanbarth er mwyn denu pobl ifanc yn ôl e.e. Prosiect Ardal y Fenai, Aberystwyth, Caerfyrddin.

O ran y camau nesaf ein bwriad nawr yw cynnal cynhadledd arbennig ar y cysyniad o Arfor wedi ei gynnull gan y Blaid ond yn agored i bawb dros y misoedd nesaf a chomisiynu darn o waith ymchwil yn rhoi rhagor o gig ar yr esgyrn a gyflwynir uchod.

Ymateb gan Cynog Dafis i argymhellion Adam Price a Sian Gwenllian

Mae'r syniad o greu rhanbarth newydd o Fôn i Fae Caerfyrddin lle byddai datblygu economaidd a chynllunio ieithyddol yn cael eu cydgysylltu yn weledigaeth gyffrous ac rwy'n ei gymeradwyo. Rwyf am gyfrannu rhai sylwadau cefndirol a nodi dau berygl y bydd angen eu hosgoi.

Dwyieithrwydd - Diau y bydd geiriau megis 'creu cymdeithas ddwyieithog' yn rhan o'r ddadl dros greu Arfor, yn gwbl briodol. I wneud y cysyniad yn greadadwy fodd bynnag bydd rhai gwarchod rhag defnyddio'r ymadrodd yn y ffordd annelwig, anwybodus ac anneallus sy'n rhy arferol o lawer.

Man cychwyn defnyddiol yw atgoffa'n hunain mai ffenomen dros dro yw dwyieithrydd cymdeithasol yn fynych iawn. Yn draddodiadol mae'n digwydd pan fydd dwy gymuned ieithyddol yn dod i gysylltiad â'i gilydd. Languages in Contact yw teitl astudiaeth glasurol, gynnar, Uriel Weinreich. Fel rheol bydd y berthynas rym rhwng y ddwy iaith yn anghyfartal a'r duedd yw i hyn esgor ar y broses a elwir yn shifft iaith - disodli un o'r ieithoedd gan y llall dros dair neu bedair cenhedlaeth. A defnyddio terminoleg Joshua Fishman, mae sicrhau 'dwyieithrydd sefydlog' yn dibynnu ar fod amgylchiadau cymdeithasol neilltuol yn bodoli, ac mae 'gwrthdroi shifft iaith' (sef yr hyn sy'n ymddangos yw polisi Llywodraeth Cymru) yn gamp heriol, er nad amhosibl.

Yn hyn oll mae bodolaeth 'cymuned ieithyddol' yn hanfodol. I unrhyw iaith fod yn gymdeithasol fyw, rhaid bod iddi ei chymuned o bobl sy'n ei defnyddio'n arferol, os nad yn ddieithrad, yn eu hymwneud â'i gilydd. Ystyr adfywhau iaith yn ymarferol yw meithrin cymuned ieithyddol felly.

Pwyslais ar y gymuned ieithyddol diriogaethol sydd wrth wraidd argymhellion Adam Price a'r bwriad fyddai i'r Gymraeg ddod dros gyfnod o amser yn gyfrwng cyfathrebu normal drwy o leiaf ran fawr o diriogaeth Arfor. Byddai llwyddo yn hyn, tra'n adfywhau'r rhanbarth yn economaidd, yn beth gwych ac yn gosod y Gymraeg ar sail newydd a chadarn.

Y Sialens ymarferol - Y gamp yn y lle cyntaf fydd cael derbyniad gwleidyddol i weithredu cynllunio ieithyddol drwy'r rhanbarth. Bydd cysylltu'r syniad â chynllun gyffrous-gredadwy i adfywhau'r economi yn gymorth. Ond y mae shifft iaith wedi cerdded ymhell mewn rhannau helaeth o'r rhanbarth ac mae yna ardaloedd lle mae'r Gymraeg, ar y llawr, mewn sefyllfa leiafrifol. Bydd rhaid troedio'n ddeheuig yn wleidyddol a bod yn barod i gyfaddawdu.

Perygl 1: Dieithrio'r Dwyrain

Gallai dieithrio parthau dwyreiniol Cymru oddi wrth y gorllewin ar sail ieithyddol fod yn fygythiad i undod y genedl.

Mae Adam Price yn cyflwyno Arfor yn rhannol fel ffordd o wrthweithio 'r rhaniad rhang Gogledd a De a champus o beth yw hynny. Dyfais wladychfaol

sy'n dyddio o gyfnod y Goncwest yw North Wales a South Wales, sy wedi treiddio'n ddwfn i'r seic Cymreig - a Chymraeg hefyd. Dylai gwrthweithio, os nad diddymu, y rhaniad yma fod yn flaenllaw ym mhroses codi'r genedl unedig Gymreig.

Eithr heb fwriad pendant-ymwybodol i rwystro hynny, gallai rhaniad Gorllewin Dwyrain, wedi'i chadarnhau drwy bolisi iaith, fod yn fygythiad mwy difrifol fyth. Eisoes mae'r broses o gydio ein Gogledd-Ddwyrain ni wrth Lannau Merswy a Midlands Lloegr, a'n De-Ddwyrain ni ar draws yr Hafren wrth Fryste, yn cerdded yn ei flaen. Clywyd Alun Cairns, neb llai, yn ddiweddar yn datgan bwysiced y strategaeth honno.

Mae gwrthweithio'r tueddiadau hyn, sy'n cael eu hwyluso gan natur ein daearyddiaeth, gan godi Cymru'n endid lwyddiannus-ddeinamig, yn gwbl sylfaenol os yw'r prosiect cenedlaethol i lwyddo. Er mwyn gwneud hynny, rhaid rhwydweithio'r genedl yn fewnol ym mhob dull a modd, gan gydio'i holl ranbarthau wrth ei gilydd ac yn arbennig ddatblygu llwybrau gyrfaol cenedlaethol. Yn y prosiect yna mae'n bosibl iawn bod yr A470 yn uwch blaenoriaeth hyd yn oed na'r A487.

Rhaid fframio cysyniad Arfor felly yn nhermau'r prosiect cenedlaethol ac undod Cymru benbaladr.

Perygl 2: Syndrom Draw dros yr Enfys.

Perygl cysylltiedig yw i'r canfyddiad gael ei greu mai mater i'r Fro Gymraeg orllewinol yw adfywhau'r Gymraeg, tra bod y Dwyrain yn rhydd i ganlyn blaenoriaethau eraill. Rhaid ymwrthod â chanfyddiad felly a'n hatgoffa'n hunain bod pob rhan o Gymru (gydag ambell i eithriad) yn 'ardaloedd traddodiadol Gymraeg'. Tan yn ddiweddar iawn roedd rhannau helaeth o'r Dwyrain yn 'gymunedau Cymraeg naturiol', rai o fewn cof, ac yn llawer o'r rheini mae'r ymgyrch i adfer yr iaith yn brosiect byw.

Rhaid felly i Arfor gael ei gweld yn rhan (enghreifftiol ac arweiniol efallai, ond nid unigryw) o strategaeth i adfer y Gymraeg yn iaith genedlaethol. Rhaid i'r gymuned Gymraeg fodoli a thyfu ar ffurf rwydweithiol y tu hwnt i ffiniau Arfor. Y gobaith fyddai i aelodau'r gymnuned rwydweithiol honno hefyd arddel y Gymraeg drwy ei defnyddio yn ddieithriad bob cyfle posibl, yn sefydliadol ac yn gymdeithasol.

Cymerer y Cynulliad Cenedlaethol yn seting dwyieithog lle mae pob cyfleusdra i ddefnyddio Cymraeg. Dychymger yr effaith, drawsnewidiol efallai, pe bai pob un o siaradwyr Cymraeg y sefydliad hwnnw yn ei defnyddio bob cyfle posibl, yn ddieithriad.

I Gloi: Y gamp y mae rhaid ei chyflawni er mwyn rhoi'r Gymraeg ar lwybr tyfiant fydd cysylltu siaradwyr Cymraeg Arfor a siaradwyr gweddill y wlad yn un gymuned ieithyddol y mae ei haelodau'n sugno hoen a hyder oddi wrth ei gilydd. Pan ddechreuith hynny ddigwydd bydd y weledigaeth ganmoladwy o gael miliwn o siaradwyr Cymrag erbyn 2050 yn dechrau magu sylwedd o ddifrif.

Ardal y Fenai - Gareth Wyn Jones

Mae'n ddefnyddiol i ystyried y potensial o gytrefiad bychan o amgylch "Y Fenai" fel 'parth' neu 'rhanbarth' unigol sydd yn gallu cefnogi economi lleol cadarn, gwydn a chynaliadwy ynghyd â lleoliad cymdeithasol, diwylliannol ac yn wir wyddonol dirgrynol.

Yn bresennol mae'r Fenai yn ffurfio ffin rhwng dau awdurdod lleol, sef Gwynedd ac Ynys Môn, ond yn rhyngwladol mae dyfrffyrdd o'r fath yn aml yn safleoedd datblygu cyn belled â bod gweledigaeth gyfannol bendant a chynllun cydlynol. Fy nadl i yw y gallai'r 'parth' hwn, 'Ardal Y Fenai', gyda'i rhanbarth cyfagos [cefnwlad] sydd yn ymestyn am ryw 20 i 30 filltiroedd ac yn cynnwys Eryri a'r arfordir rhagorol, darparu enghraifft batrymol i Gymru wledig yn ogystal â gwrthbwyso atyniad ardaloedd dinesig yn ne a gogledd ddwyrain Cymru. Os yw'n llwyddiannus, mi fyddai Ardal y Fenai yn cynorthwyo i gydbwyso'r economi Cymreig datblygol a gwella'r wahanfa dwyrain-gorllewin, ac, yn holl bwysig, darparu cefn gwlad drefoledig lle gallai'r iaith a diwylliant Gymraeg ffynnu. O wybod fy marn besimistaidd ar yr economi ac amgylchedd byd-eang [e.e. Y Storom Berffaith; Y Faner Newydd Rhag. 2015], gallai hefyd fod yn genhedlwr ar gyfer cynllun datblygu fwy cynaliadwy a chyfeillgar i'r bobl.

1. Ystyriaethau:

1.1

Tra bod Môn yn amddiffynol o wahanolrwydd ei ynys, y realiti ar y tir yw bod glannau gogleddol a deheuol y culforoedd wedi eu cyfuno yn agos yn economaidd, cymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae nifer yn teithio o neu i'r ynys yn ystod oriau brig y bore a'r nos, yn bennaf mewn car, ac mae

yna drafodaethau am drydedd groesfan ar safle sydd heb ei benderfynu eto. Mae'r cyfaniad nid yn unig yn ymwneud â 'theithio i'r gwaith' ond mae'n gymdeithasol a diwylliannol. Mewn gwirionedd mae'r glannau gogleddol a deheuol yn un endid; boed hynny mewn perthynas ag iechyd [Ysbyty Gwynedd], siopa, Ysgol Glanaethwy, mynychu'r theatr neu aelodaeth côr a bwyta allan. Mae Prifysgol Bangor a'r sefydliad Addysg Bellach [Grŵp Llandrillo / Menai] yn rhychwantu'r ddwy ochr. Mae'r achos dros gynllun datblygu cydlynol unigol neu awdurdod o Gaernarfon i Fiwmares yn gryf. Yn ôl pob tebyg, mae Comisiwn Ffiniau Senedd y DU wedi cydnabod y patrwm hwn yn eu cynigion ar gyfer sedd 'Môn ac Arfon' newydd.

1.2

Mae'n werth rhifo'r asedau y mae'r 'rhanbarth' eisoes yn mwynhau a pham y dylid fod yn 'parth datblygu' blaenoriaethol.

- Poblogaeth sydd yn nesu at 70,000:
- Prifysgol o bwys gyda sylfaen ymchwilio cryf:
- Canolfan Ymchwilio Newydd- £10m (er wedi lleoli ar ymyl y Parth):
- Parc Busnes Parc Menai a safle annatblygedig Bryn Gegin yn ogystal ag ystadau Cibyn, Llandegai a Cenfi; gyda rhai cwmnïoedd dechreuol a sefydledig llwyddiannus, y ddau ar yr ystadau yma ac yn Llanberis er enghraifft.
- Coleg Addysg Bellach sefydlog uchel ei barch- er bellach wedi cyfannu yng Ngholeg Llandrillo/ Grŵp Menai.
- Ysbyty Cyffredinol Dosbarth gyda chysylltiadau dysgu arbenigol â Chaerdydd.
- Cymuned Gymraeg blaengar a chryf sydd yn cynnwys nifer o sectorau megis y cyfryngau a chyhoeddi ayb.
- Sector diwylliannol arloesol yn enwedig Y Galeri, Ysgol Gerdd William Mathias, Ysgol Glanaethwy a bellach Pontio [buddsoddiad gwerth £50m]- cwmnïoedd y cyfryngau a theatr a nifer o gorau.
- Cyfran uwch o ieuenctid ac elfen gref gosmopolitan yn bennaf wedi cysylltu â'r Brifysgol.
- Lleoliad, ardderchog a hardd ar hyd y Fenai, ynghyd â hinsawdd ficro da yn enwedig o amgylch Beaumaris.
- Cysylltiadau trafnidiaeth da â Llundain [3 awr; trên] a maes awyr Manceinion [1 awr 30 munud; ar yr heol]; ond yn anffodus cysylltiadau heol a rheilffordd wael ac annigonol â Chaerdydd [gweler yn ddiweddarach]. Cysylltiadau band eang a digidol gyflym iawn yn y mwyafrif o'r parth. Caergybi yw'r prif gyswllt rhwng Dulyn (poblogaeth > 1m) a gweddill Iwerddon ag ynysoedd Prydain a thir mawr Ewrop. (Mae angen arolygu effaith Brexit ar hyn).
- Cyfleoedd hamdden ardderchog yn enwedig hwylio, cerdded a mynydda (Eryri) ynghyd â thraethau godidog.
- Sector gastronomig sy'n mynd o nerth i nerth gyda rhai bwyty seren Michelin. Mae bwyd môr Porthaethwy/Menai a bellach ffeiriau bwyd Caernarfon yn hynod o lwyddiannus. Mae'r sector fwyd (e.e. Halen Môn/Mon-ar-Lwy/ cawsiau, bragdai a gwinoedd lleol ayb) yn creu canolbwynt ac mae Hufenfa De Arfon yn yr ardal ayb. Felly ar y cyfan mae yna sector bwyd a diod amrywiol a mentrus sydd yn cynnwys bwydydd fferm a morol o fewn radiws o 20 i 30 milltir sydd yn cyflenwi'r sector twristiaeth.
- Yn y Brifysgol, Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïoedd gwyddonol/technegol lleol, CAST, parc gwyddoniaeth Gaerwen, mae yna hanfod o barth gyda sylfaen wyddonol a'r potensial ar gyfer yr esblygiad o wasanaethau ymgynghorol a gwasanaethau eraill i weithredu ar sail Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.
- Sector twristiaeth gref a safle Treftadaeth y Byd UNESCO (Cestyll Eingl-Normanaidd), Amgueddfa Llechi Cymru, lein fach gul, ynghyd â safleoedd eraill a chaiff eu hyrwyddo (Chwareli Llechi). Wedi ychwanegu gan sector y gwyliau anturus sydd yn tyfu.
- Canolbwynt ynni / "Ynys Ynni"- potensial sylweddol o ynni adnewyddadwy artraeth ac alltraeth. Cyfleuster storfa bwmp ar gyfer cadw trydan. Datblygu cyflenwadau'r grid lleol yn seiliedig ar ynni adnewyddadwy lleol e.e. Ynni Ogwen ar gyfraddau masnachol yn bell o dan y rhai a gytunwyd ar gyfer Hinckley C.
- Mae gan y parth a'i gefnwlad gyfagos y potensial i fwynhau gradd cymharol fawr o ynni a bwyd ac wrth gwrs hunan gynhaliaeth dŵr yn ogystal â mwynhau cysylltiadau masnachu â

Chymru a thu hwnt yn cynnwys lwerddon.

1.3.

Gallai'r mwyafrif o'r asedau a grybwyllwyd uchod gyflawni gwellhad ond wrth gwrs mae problemau bob amser heb eu datrys: gweler ychydig isod.

Er bod cydweithrediad gweithredol rhwng Môn a Gwynedd a'r Rhaglen Adfywio Môn-Menai a weithredwyd gan LlC, nid wyf yn ymwybodol o gynllun datblygu cydlynol ar gyfer 'Y Fenai', gyda pharth datblygu economaidd LlC wedi'i gyfyngu i Fôn. Nid wyf yn ymwybodol o sefydliad busnes "Menai" e.e. Siambr Fasnach integredig er y gallai'r Ganolfan Reoli yn UB fod yn gatalydd.

O gofio pwysigrwydd Caerdydd fel y brifddinas genedlaethol, cartref Llywodraeth Cymru, nifer o gyfleusterau cenedlaethol a thîm pêl-droed a rygbi Cymru (a gefnogir yn drwm yn y rhanbarth hwn), mae cysylltiadau trafnidiaeth yn annerbyniol o wael. Gwnaethpwyd cynnydd araf ar gyfer gwella'r A470 ac A487 ac mae'r cyswllt rheilffyrdd yn araf o hyd gydag ystod o stoc sydd yn amrywio o wael i ofnadwy. Mae gan y cyswllt awyr Dyffryn / Caerdydd ei werth ond nid yw'n system drafnidiaeth màs effeithiol ac mae ganddo ôl troed carbon uchel ac ni fyddai'n goroesi treth garbon (fel y caiff ei weithredu mewn llawer o awdurdodaethau).

Cydnabyddir mai'r sector gwasanaeth bellach yw rhan flaenllaw unrhyw economi datblygedig ac mae'n sbardun pwysig i ffyniant. Gall hefyd weithredu ar arddwysedd carbon isel, a fydd yn dod yn fwyfwy pwysig yn y 2 ddegawd nesaf i gyflawni rhwymedigaethau cytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd. Fodd bynnag, mae gan y rhanbarth luosyddion economaidd isel ac yn gyffredin â nifer o ardaloedd gwledig sydd â chyfraddau colledion economaidd uchel iawn, maent yn codi yn y sector manwerthu oherwydd y gystadleuaeth o Landudno a Chaer a hyd yn oed Manceinion, diffyg rhai gwasanaethau arbenigol wrth sefydlu cwmnïau ac arbenigedd cyfreithiol perthnasol. Hefyd nid yw'r polisïau sy'n ymwneud â phrynu cyhoeddus yn gwneud y mwyaf o effaith leol y gwariant hwnnw gan yr awdurdodau lleol, y Brifysgol, bwrdd yr ysbyty ayb. Mae llawer o dwristiaeth ddydd a hyd yn oed meysydd carafannau a meysydd gwersylla yn darparu effaith economaidd fach yn unig.

Mae'r economi dwristiaid wedi elwa o fentrau megis y teithiau gwifren ym Methesda a'r trampolinau yn Llechwedd, Rib Ride - Porth Aethwy ond mae'r adenillion economaidd i'r cymunedau o gwmpas y parc e.e. Bethesda, Waunfawr, Penygroes yn wael, yn rhannol oherwydd bod y mwyafrif o ymwelwyr dydd a gwersyllwyr yn cyrraedd ac yn gadael yn bennaf mewn ceir. Nid yw'r weledigaeth gyfannol sydd wedi'i ddatblygu ym mhrosiect Menter Agoriad Gwyrdd Eryri, a fyddai wedi cyfuno mwy o gyfleoedd economaidd gydag ôl troed carbon is, wedi ei sylweddoli. Yn y weledigaeth, byddai Bethesda, Llanberis a Phenygroes wedi bod yn fynedfeydd mewnol a Bangor a Chaernarfon yn fynedfeydd allanol i Eryri.

Defnydd cyfyngedig o asedau: e.e. oes modd gwneud mwy o ddefnydd o Gastell Caernarfon. Gyda gwaith adeiladu dros dro modern ysgafn, nid yw'n bosibl i adeiladu "amffitheatr a llwyfan" o fewn Cestyll Caernarfon a Biwmares ar gyfer cynyrchiadau haf? A oes modd defnyddio rhan o dŵr yr Eryr fel 'parador' bach mewn amser? Sut y gellir gwneud defnydd gwell o gyfleusterau Pontio pan nad yw'n dymor y brifysgol?

Mi fydd cystadlu lleol, nid yn unig rhwng Môn a Gwynedd ond rhwng cymunedau yn y parth ac/neu yn gyfagos, yn sicr yn rhwystro cynllun cyfannol.

Tra bod gwasanaethau bws da wedi bodoli yn yr ardal, maent wedi eu bygwth gan lymder. Mae'r ardal eisoes wedi ei nodweddu gan y defnydd gormodol o gymudo mewn ceir.

Mae rhan o'r cyflenwad tai yn wael ac yn anodd eu hynysu oherwydd waliau carreg a briciau solet.

1.4.

Cyd-destun y drafodaeth hon yw newid cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol buan. Mi fydd Cymru yn ennill cymysgedd o bwerau codi treth, gwario a deddfwriaethol, a fydd yn gorfodi fwy o bwyslais ar ehangu a thyfu'r sylfaen treth o fewn Cymru. E.e. mae rhaid i'n busnesau llwyddo. Cefnogir hyn gan luosyddion mewnol gwell, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol yn ogystal â darpariaeth allforio ac/neu wasanaeth llwyddiannus. Mae Cymru wledig yn dioddef colled economaidd enfawr ac efallai caiff ei gynyddu gan e-fasnach. Rhan o'r broblem yw poblogaethau bach gwasgaredig. Mae'n ymddangos bod nifer o'r prif fân-werthwyr rhyngwladol e.e. cadwyni lluosog mawr, yn tynnu arian o'r economi

lleol ac yn tanseilio hyfywedd busnesau lleol, a fyddai efallai yn cynhyrchu lluosyddion lleol llawer fwy. Yn ychwanegol mae gennym faterion yn ymwneud â mewnfudo yn enwedig pobl sydd wedi ymddeol i "Costa Geriatrica" a'r her newid hinsawdd ac o symud mewn rhyw 20 mlynedd i economi carbon isel.

Mi fyddai nifer cyfyngedig o Barthau Datblygu strategol fel y nodwyd yn "Y FENAI" yn allweddol er mwyn fynd i'r afael â'r materion yma.

2. Camau polisi posib:

Yn gyffredinol, mae'r mater yn ymrannu cymaint o gwmpas y sectorau gwasanaethau lluosog fel y sectorau diwydiannol / masnachol clasurol ac ar annog gwariant lleol, ehangu'r lluosyddion, ar ymelwa ar asedau adnewyddadwy lleol mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy, bwyd a diod, gweithgynhyrchu gwyddoniaeth a thechnoleg arbenigol ar raddfeydd bach ac ymgynghoriaethau a'r sectorau diwylliannol ac addysgiadol amlieithog.

Y dystiolaeth yw bod datblygiadau mawr e.e. Dinowig, Alwminiwm Môn, Trawsfynydd a Phwerdy'r Wylfa yn cynnig seibiant dros dro yn unig o broblemau hirdymor y rhanbarthau. Mae gan sector gwasanaethau hyfyw hirdymor sawl agwedd- yn amlwg mae symudedd, mynediad, trafnidiaeth, parcio a chynllunio / dylunio canol trefi yn hanfodol. Yn y cyd-destun hwn mae cynllunio ar gyfer ein tywydd cymysg yn hanfodol (i wneud y defnydd gorau o'r amseroedd da ac i gysgodi pobl mewn tywydd gwael). Ni ellir cyrraedd strydoedd siopa Bangor na Chaernarfon o'r meysydd parcio aml-lawr heb frwydro yn erbyn y gwynt a'r glaw.

Nid yw'r strydoedd yn cynnig lloches. Roedd arcedau a waliau'r oes Fictoraidd yn syniad gwell!! Ystyrir bod parcio yn ddrud ac nid yw trafnidiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded yn rhwydd ychwaith.

Mae gan fwyd a diod leol botensial ond ar y cyfan archfarchnadoedd yw'r cryfaf ac maent ond yn esgus cefnogi cynhyrchion lleol. Mae ynni adnewyddadwy lleol ynghyd â grid trefol lleol, fel sy'n digwydd yn yr Almaen, yn cynnig cyfle pwysig a ffordd at drafnidiaeth leol fforddiadwy wedi ei drydaneiddio (neu gelloedd tanwydd).

Gweler isod ychydig o bethau penodol i ysteried yn fanwl:

- Cynllun datblygu sy'n seiliedig ar feysydd a gytunwyd gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â datblygiad masnachol, gofynion tai realistig, hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ayb.
- Un awdurdod unigol, neu os nad yw'n ymarferol, cynllun datblygu ar y cyd.
- Buddsoddiad cyhoeddus strategol e.e. Gellid hyrwyddo "Ardal Y Fenai" trwy fuddsoddi mewn / denu uned weinyddol Llywodraeth Cymru.
- Buddsoddi mewn selio parthau i gerddwyr yng Nghaernarfon a Bangor rhag y tywydd i annog masnach leol.
- Cynllun eang ar gyfer arbed ynni - mewn cludiant, gwresogi ayb.
- Grid trydan smart lleol gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy lleol a darparu pwyntiau gwefru EV.
- Cynllun trafnidiaeth leol gyfannol, a allai gynnwys pont newydd dros Y Fenai. Fodd bynnag, gan fod cymaint o broblemau yn codi o gymudo lleol, rhaid ystyried amrywiaeth o atebion; e.e. ailagor cysylltiadau rheilffyrdd i Langefni, Amlwch a Chaernarfon fel rheilffyrdd / tramffyrdd ysgafn?
- Cyfathrebu gwell rhwng y Gogledd / De yng Nghymru i ganiatáu rhywfaint o ryngweithio gwell â Chaerdydd [i] ar y ffordd, gweler cynllun IWA (rhagweld y caiff ceir eu pweru gan drydan neu H2 a [ii] trenau. Gellir lleihau'r daith o Fangor i Gaerdydd o 3 awr 30 munud i 3 awr gyda chyfleusterau da.
- Cynlluniau i wella cadwyn fwyd lleol a chadwyni mwy tymhorol ac yn hanfodol ymglymu'r siopau manwerthu mawr.
- Creu delwedd brand o fwyd lleol - Halen Môn. A oes modd prosesu cregyn gleision Traeth Lafan yn lleol a chynorthwyo i ddatblygu tarddiad lleol?
- Ailymweld â menter Agoriad Gwyrdd Eryri i gynhyrchu twristiaeth garbon isel gynaliadwy sy'n dod ag arian i gymunedau lleol.
- Nifer o gyfleoedd yn y sectorau diwylliannol / adloniant / addysgol gan gynnwys arbenigedd dwyieithog / amlieithog.